

Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)

Adroddiad ERAMMP-59: Gwerthuso Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000

Keenleyside, C.B.¹, Alison, J.², Bentley, L.², Garbutt, R.A.², Noble, D.G.³ a
Smart, S.M.²

¹ Institute for European Environmental Policy, ² Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU,

³ British Trust for Ornithology

Cyfeirnod y Cleient: Llywodraeth Cymru / Contract C210/2016/2017

Fersiwn 1.0

Dyddiad: 17-Mai-2021



Wedi'i Ariannu gan:



Hanes y Fersiynau

Fersiwn	Diweddarwyd gan	Dyddiad	Newidiadau
1.0	Tim yr Awduron	17/5/21	Cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn electronig yma / This report is available electronically at: www.erammp.wales/59

Neu trwy sganio'r cod QR a ddangosir / Or by scanning the QR code shown.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Y Gyfres	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)
Teitl	ERAMMP Adroddiad-59: Gwerthuso Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000
Cleient	Llywodraeth Cymru
Cyfeirnod y cleient	C210/2016/2017
Cyfrinachedd, hawlfraint a chopïo	© Hawlfraint y Goron 2021 Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored 3.0.
Manylion cysylltu UKCEH	Bronwen Williams Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH) Canolfan yr Amgylchedd Cymru, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2UW 01248 374500 erammp@ceh.ac.uk
Awdur Gohebu	Clunie Keenleyside, IEEP ckeenleyside@ieep.eu
Awduron	Keenleyside, C.B. ¹ , Alison, J. ² , Bentley, L. ² , Garbutt, R.A. ² , Noble, D.G. ³ & Smart, S.M. ² ¹ IEEP, ² UKCEH, ³ BTO
Awduron ac adolygwyr a gyfrannodd	Williams, B. , Emmett, B.A. UKCEH Diolch yn arbennig i Daniel Bevan a James Skates (LIC); Christine Edwards a Dylan Lloyd (CNC)
Sut i ddyfynnu (hir)	Keenleyside, C.B., Alison, J., Bentley, L., Garbutt, R.A., Noble, D.G. & Smart, S.M. (2021). <i>Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)</i> . ERAMMP Adroddiad-59: Gwerthuso Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU Prosiectau 06297 & 06810)
Sut i ddyfynnu (byr)	Keenleyside, C.B. et al. (2021). ERAMMP Adroddiad-59: Gwerthuso Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (UKCEH 06297/06810)
Cymeradwywyd gan	

Byrfoddau a Ddefnyddir yn yr Adroddiad hwn

ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
AGCCGA	Amrywiaeth, Graddfa, Cyflwr, Cysylltedd a'r Gallu i Addasu
CAY	Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
CFfC	Cynllun Ffermio Cynaliadwy
CGF	Cynllun Gwelliannau a Flaenoriaethir
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CNC/CCGC	Cyfoeth Naturiol Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru
ERAMMP	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
LIFE	L'Instrument Financier pour l'Environment <i>(offeryn cyllido'r UE ar gyfer gweithredu amgylcheddol a hinsoddol)</i>
MFfGS	Model Fferm Gyfan Silsoe
N2K	Natura 2000
PMI	Platfform Modelu Integredig
RhANG	Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
SPAE	Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop
SRhDYA	System Rhagfynegi a Dosbarthu Ymlusgiaid mewn Afonydd
UKCEH	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
YAP	Ymddiriedolaeth Adareg Prydain

Ymhelaethir ar fyrfoddau a rhai o'r termau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yng ngeirfaoedd y rhaglen: <https://erammp.wales/en/glossary> (Saesneg) a <https://erammp.cymru/geirfa> (Cymraeg)

CYNNWYS

1	Cyflwyniad	2
1.1	Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000 2020-21	2
1.2	Diben, cwmpas a methodoleg y gwerthusiad hwn	2
1.2.1	<i>Diben a chwmpas</i>	2
1.2.2	<i>Methodoleg</i>	2
1.2.3	<i>Ffynonellau data a chyfyngiadau</i>	4
2	Trosolwg o bob un o'r 34 prosiect	5
3	Gwerthuso gweithredoedd y 17 prosiect a astudiwyd yn fanwl	6
3.1	Dadansoddi gweithredoedd a ariennir	6
3.2	Tystiolaeth o'r effaith bosibl ar nodweddion a safleoedd Natura 2000	7
3.2.1	<i>Targeddu prosiectau at flaenoriaethau Natura 2000</i>	7
3.2.2	<i>Cryfder y dystiolaeth o'r effaith bosibl yn sgil gweithredoedd a phrosiectau ar nodweddion a safleoedd Natura 2000</i>	7
3.2.3	<i>Asesu manteision ychwanegol posibl</i>	8
3.2.4	<i>Mesurau y gallai rheolwyr cynllun eu defnyddio i fonitro effeithiau</i>	9
3.2.5	<i>Y posibilrwydd o ddefnyddio modelau â ffynhonnell agored i helpu i werthuso prosiectau</i>	9
3.3	Trafodaeth	11
4	Argymhellion	13

I'w hadolygu ar y cyd â'r Atodiadau Technegol cyfatebol
<https://www.erammp.wales/59>

1 CYFLWYNIAD

1.1 Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000 2020-21

Mae **Dyfarniadau Adfer SMS Natura 2000** yn gynllun grant a ariennir gan Lywodraeth Cymru (LIC) nad yw'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Gwledig gyda'r nod o gefnogi buddsoddiadau cyfalaf ar raddfa dirweddol sy'n gweithredu i wella cyflwr safleoedd Natura 2000¹ ('N2K'). Lanswyd y cynllun ar 8 Gorffennaf 2020, ac roedd rhaid i'r ceisiadau llwyddiannus fod wedi cael eu gweithredu erbyn 31 Mawrth 2021.

1.2 Diben, cwmpas a methodoleg y gwerthusiad hwn

1.2.1 Diben a chwmpas

Cafodd ERAMMP² ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ac asesiad annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth o is-set o geisiadau a dderbyniwyd ar gyfer y grant hwn yn 2020.

Nid yw'r adolygiad hwn yn asesu amcanion y cynllun, a nodir yn glir nad oes ganddo unrhyw gysylltiad ag asesiadau dilysrwydd a thaliadau Llywodraeth Cymru ar lefel prosiectau. Yn ogystal â chyflawni'r gorchwyl a gomisiynwyd, mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion yn seiliedig ar ei ganfyddiadau, a bwriedir i'r argymhellion hyn lywio dyluniad y cynllun grant hwn yn y dyfodol.

1.2.2 Methodoleg

Gan fod y gwerthusiad yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod gweithredu'r prosiectau a gymeradwywyd, roedd rhaid i'r fethodoleg gael ei theilwra i gyd-fynd â'r amserlen fer a'r manylion a oedd ar gael ynglŷn â'r prosiectau.

Cafodd y gwerthusiad ei strwythuro gan ddefnyddio'r ffurflenni cais a gwblhawyd ar gyfer y 15 prosiect y dyfarnwyd grant iddynt yng nghyfnod ceisiadau 2020 (allan o gyfanswm o 22 o geisiadau). Roedd yn amlwg yn syth fod tri o'r 15 cais yn cynnwys clwstwr o wahanol brosiectau mewn lleoliadau gwahanol yn cynnwys gwahanol weithredoedd. At ddiben y gwerthusiad, cafodd y rhain eu rhannu yn ôl eu cyfryw brosiectau, gan roi cyfanswm o 34 prosiect at ei gilydd.

Cafodd nodweddion pob un o'r 34 prosiect eu gwerthuso (Atodiad Technegol-1, dogfen dechnegol mewn atodiad ar wahân³) a detholwyd 17 prosiect gan ddefnyddio'r meini prawf y dylent, cyn belled ag y bo modd, gynrychioli'r ystod o wahanol leoliadau, amcanion Natura 2000, gweithredoedd a mathau o ymgeisydd. Roedd yr is-sampl hwn yn destun dadansoddiad manylach gan dîm o adolygwyr arbenigol, gan ddefnyddio proses werthuso sylfaenol:

Cam 1: Ar gyfer pob prosiect, nodwyd gweithredoedd arfaethedig, ynghyd â'r safle(oedd) Natura 2000 yr effeithir arnynt ac unrhyw gynefin/rhywogaeth/nodwedd a dargedwyd.

1

https://ec.europa.eu/environment/nature/natura2000/index_en.htm

² www.erammp.wales

³ <https://www.erammp.wales/59> '59TA1'

Cam 2: Ar gyfer pob gweithred, crynhowyd y math o weithgaredd, y canlyniad disgwylidig a gwybodaeth am y cynefin/rhywogaeth/nodwedd(ion) (Tabl 1.1)

Cam 3: Ar gyfer pob gweithred, atebwyd y cwestiynau gwerthuso a ganlyn:

C1 A oes tystiolaeth dda o effaith bosibl y weithred hon ar gyflwr y cynefin(oedd) a/neu rywogaeth Natura 2000 a dargedir?

C2 A oes manteision amgylcheddol posibl ar raddfa dirweddol o fewn neu y tu hwnt i'r safle Natura 2000 ei hun, neu fanteision bioamrywiaethol ychwanegol o fewn y safle ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau nas targedir?

C3 A oes mesurau syml ar gyfer monitro/gwerthuso effaith y weithred hon?

C4 A oes manteision posibl i'r economi leol?

C5 A oes manteision posibl o ran cysylltu'n fwy â'r gymuned leol yn y safle(oedd) Natura 2000?

Cam 4: Cafodd allbwn camau 1-3 ar gyfer pob prosiect eu hadolygu yn un o gyfarfodydd y tîm cyfan, i sicrhau dull cyson, gan roi sylw penodol i C1. Ar gyfer y cwestiwn hwnnw, defnyddiwyd meini prawf 'goleuadau traffig' i nodi'r graddau y mae tystiolaeth wyddonol yn cefnogi effaith ddisgwylidig y weithred ar y cynefin(oedd) a/neu rywogaeth Natura 2000 a dargedir (gweler Adran 3.2.2, t.7, am fanylion).

Tabl 1.1 Gwybodaeth allweddol am bob prosiect a ffynonellau data

Gwybodaeth	Ffynhonnell y data
Safle(oedd) Natura 2000 y mae'r weithred hon yn berthnasol iddi/iddynt	Ffurflen gais
Cynefin/rhywogaeth/nodwedd y safle Natura 2000 a dargedir gan y weithred hon	Ffurflen gais
Disgrifiad byr o'r weithred	Ffurflen gais
Graddfa gweithredu	Ffurflen gais
Effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol posibl yn sgil y weithred ar adfer y cynefin/rhywogaeth/nodwedd	Ffurflen gais
Manteision ychwanegol posibl	Ffurflen gais
Asesiad o gyflwr y cynefin/rhywogaeth a dargedir yn y safle(oedd) Natura 2000	Rhannau o'r setiau data Lle ⁴ wedi eu diweddarau, a ddarparwyd gan CNC
Problem neu risg i'r math o gynefin/rhywogaeth/nodwedd yn y safle Natura 2000 y gobeithir effeithio arno yn sgil y weithred	Adroddiad CGF a matrices ar gyfer pob safle Natura 2000

⁴ Mae Geo-Borthol Lle yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i greu hwb ar gyfer data a gwybodaeth (yn bennaf am natur a'r amgylchedd). <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>

1.2.3 Ffynonellau data a chyfyngiadau

Y tair prif ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn oedd ffurflenni cais prosiectau, adroddiad y Cynllun Gwelliannau a Flaenoriaethir (CGF) a chrynodeb matrices pob safle Natura 2000⁵ a'r wybodaeth a ddarparwyd gan CNC ynghylch asesiadau o gyflwr Natura 2000 (nad oeddent wedi eu cyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r gwerthusiad hwn). Roedd i bob un o'r ffynonellau hyn rai cyfyngiadau.

Mae ffurflen gais y prosiectau yn cynnwys gwybodaeth weinyddol a gwybodaeth dechnegol mewn templed manwl gyda chyfyngiad ar nifer y geiriau a ganiateir ar gyfer adrannau penodol. Er enghraifft, 0.5 tudalen ar gyfer y trosolwg o'r prosiect, a 3 tudalen yr un ar gyfer y manteision i'r safle(oedd) Natura 2000 a'r egwyddorion o fabwysiadu trefniadau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (RhANG).

Mae'n amlwg bod hwn yn ddull synhwyrol a theg, yn briodol ar gyfer prosiectau sy'n cwmpasu dim ond un neu ddau safle Natura 2000 ac ystod gyfyngedig o weithredoedd, yn addas ar gyfer ffenestr gymharol fer ar gyfer ymgeisio ac asesu ynghyd â'r cyfyngiadau yn sgil pandemig Covid-19. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau mwy, roedd y cyfyngiad ar hyd y cais yn golygu bod gan yr arbenigwyr a asesai'r prosiectau hyn lai o wybodaeth i wneud penderfyniad ar ei sail.

Mae'r adroddiadau a'r matricesau CGF, a oedd yn rhan o allbwn Rhaglen LIFE Natura 2000 ar gyfer Cymru, yn cynnig data manwl sy'n benodol i'r safle gan gyfeirio at nodweddion sy'n gysylltiedig â phob dynodiad safle Natura 2000, a'r problemau, y risgiau a'r gweithredoedd sy'n gysylltiedig â phob safle. Roedd y CGFau, ochr yn ochr ag asesiadau diweddar CNC o gyflwr nodweddion Natura 2000, yn sail i'r gwerthusiad o ba mor dda yr oedd y gweithredoedd a gynigiwyd gan brosiectau yn cyd-fynd â'r anghenion Natura 2000 a nodwyd.

Wrth ystyried asesiadau diweddar CNC o gyflwr Natura 2000 a'r problemau a'r risgiau yn y CGFau, dylid nodi bod y dyddiad ar gyfer y wybodaeth sy'n sail i'r asesiadau yn amrywio gryn dipyn o nodwedd i nodwedd, ac mae hi'n bosibl bod gan rai ymgeiswyr neu eu cynghorwyr wybodaeth sy'n fwy cyfredol (yn seiliedig ar eu harsylwadau eu hunain) nag a ddefnyddir yma.

Roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i asesu effaith bosibl y gweithredoedd arfaethedig ar gyflwr Natura 2000 (C1 uchod) yn deillio o Adolygiadau o Dystiolaeth CFfC ERAMMP⁶, meta-adolygiadau eraill sydd wedi eu cyhoeddi megis Tystiolaeth o Gadwraeth⁷, chwilio llenyddiaeth am waith rheoli sy'n targedu rhywogaeth benodol a, lle nad oedd cysylltiad â thystiolaeth gyhoeddedig, drwy ofyn am farn arbenigwyr.

Wrth ddethol is-sampl o 17 prosiect i'w dadansoddi'n fanwl, roedd tuedd tuag at brosiectau unigol, llai gan fod y rhain yn gallu cynnig mwy o fanylion am y gweithredoedd y bwriadwyd eu gwneud (o fewn y cyfyngiad tudalennau yn y ffurflen gais) nag oedd yn bosibl ar gyfer nifer o is-brosiectau a gafwyd yn y tri chais mawr (sef prosiectau 4, 10 ac 13 yn Atodiad Technegol-1).

Yn sgil y duedd anorfod wrth ddethol yr is-sampl, hwyrach bod yr asesiad dilynol o'r dystiolaeth yn cynnig canfyddiadau mwy ffafriol i geisiadau unigol, llai yn hytrach na'r is-brosiectau yn y ceisiadau mawr.

⁵ Mae Cynlluniau Gwelliannau a Flaenoriaethir (CGF) Natura 2000 yn gynlluniau wedi'u costio a'u blaenoriaethu sy'n crynhoi'r gweithredoedd arfaethedig sydd eu hangen erbyn 2020 i helpu i wella cyflwr nodweddion dynodedig cynefinoedd a rhywogaethau ar y safle. Mae'r gweithredoedd yn mynd i'r afael â phroblemau a risgiau lefel uchel a chanolig sy'n atal y nodweddion rhag bod mewn cyflwr ffafriol.

⁶ <https://erammp.wales/en/r-sfs-evidence-pack>

⁷ <https://www.conservationevidence.com/>

2 TROSOLWG O BOB UN O'R 34 PROSIECT

Mae'r ceisiadau a gymeradwywyd yn ymwneud ag ystod eang o safleoedd Natura 2000 ynghyd â nodweddion a chynefinoedd, o gynefinoedd morol a chynefinoedd ar ynsoedd i gynefinoedd ar wlypdiroedd, mewn coedwigoedd, mewn dolydd ac ar ucheldiroedd eang. Roedd prosiectau yn targedu rhywogaethau adar y môr, adar ysglyfaethus, amffibiaid, ystlumod a gloynnod byw. Roedd rhai gweithredoedd yn amcanu i ddatrys problemau penodol o ran trefniadau rheoli safleoedd Natura 2000 (fel y nodir yn y CGF) yn hytrach na thargedu un cynefin/rhywogaeth/nodwedd yn benodol. Roedd problemau i'r perwyl hwn yn cynnwys llygredd gwasgaredig, gorbori, rhywogaethau estron goresgynnol a lefel isel o gysylltedd mewn cynefinoedd.

Roedd nifer y gweithredoedd fesul prosiect yn amrywio o un i naw, ac roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau yn targedu un neu ddau safle Natura 2000 (ACAoedd yn bennaf, ond rhai AGAoedd hefyd).

Elusennau oedd yr ymgeiswyr yn bennaf, ond roedd tri sefydliad yn y sector cyhoeddus hefyd (dau ohonynt yn Awdurdodau Parc Cenedlaethol), busnes ffermio a chymdeithas bori. Roedd y grantiau y gwnaed ceisiadau amdanynt yn amrywio o £49,000 i £425,000, ac roedd un ymgeisydd wedi gofyn am gyllid ar y cyd o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat hefyd ar gyfer yr un prosiect. Roedd chwech o'r 15 ymgeisydd yn bwriadu cyflawni'r prosiect ar y cyd ag eraill, gwirfoddolwyr gan amlaf. Roedd pob ymgeisydd namyn un wedi ymgynghori â chynghorwyr CNC ynghylch eu ceisiadau.

Mae manylion pob un o'r 34 prosiect yn y 15 cais wedi cael eu crynhoi yn Atodiad Technegol-1.

3 GWERTHUSO GWEITHREDOEDD Y 17 PROSIECT A ASTUDIWYD YN FANWL

Mae'r bennod hon yn trafod y dadansoddiad o'r gweithredoedd o fewn yr is-sampl o 17 prosiect a ystyriwyd yn fanwl.

3.1 Dadansoddi gweithredoedd a ariennir

Nodwyd cyfanswm o 77 gweithred o 14 math ar draws y 17 prosiect (Tabl 3.1).

Fel y gellid ei ddisgwyl, adfer neu reoli cynefinoedd oedd y weithred a godwyd fynychaf, a hynny yn dros hanner y prosiectau a ddadansoddwyd, fel rheol yn ymwneud â chynefinoedd wedi dirywio neu ordyfu sydd angen eu pori at ddibenion cadwraeth. Ym mhump o'r prosiectau yn y sampl, gwelwyd gweithredoedd yn amcanu i hysbysu a chysylltu â'r cyhoedd, nid byrddau dehongli a gwybodaeth ac arwyddion yn unig, ond deunyddiau addysgiadol, casglu data, monitro gwyddoniaeth dinasyddion a phrosiect yn defnyddio ffrwd cyhoeddus o bum camera byw ar ynys gyda nythfeydd adar y môr. Roedd rhai gweithredoedd yn mynd i'r afael â gwelliannau neu waith adfer ar isadeiledd ymwelwyr, megis llwybrau a meysydd parcio.

Roedd nifer debyg o brosiectau yn cynnwys astudiaethau neu gasglu data, gyda nifer ohonynt yn paratoi ar gyfer gwaith manwl ar adfer neu greu cynefinoedd, ac un prosiect yn cysylltu'n rhagweithiol â ffermwyr lleol wrth gasglu data i'w hwyluso i reoli eu tir yn fwy cynaliadwy. Roedd y gwaith i adfer ffiniau neu osod rhai newydd a darparu cyfleusterau trin da byw fel arfer yn gysylltiedig â'r bwriad o wella neu ailgyflwyno pori at ddibenion cadwraeth, ac roedd hyn yn aml yn cynnwys ffensio, ond roedd dau brosiect yn cynnwys gweithredoedd ar gyfer ffiniau sy'n gynefinoedd ynddynt eu hunain, megis waliau cerrig sychion, cloddiau, ffensiau llechi a gwrychoedd.

Roedd gweithredoedd yn ymwneud ag isadeiledd rheoli dŵr, megis llifddorau, yn amcanu i adfer neu ymestyn cynefinoedd ar wlypdiroedd, a'r rheiny mewn coedwigoedd o ran diogelwch ac adfer cynefinoedd. Roedd nifer o geisiadau yn gofyn am gerbydau ac offer arbenigol i hwyluso'r gwaith o reoli cynefinoedd a/neu gael mynediad at safleoedd.

Tabl 3.1 Math y 77 o weithredoedd yn y 17 prosiect a astudiwyd yn fanwl

Math o weithred	Nifer gweithredoedd	Nifer prosiectau
Adfer neu reoli cynefin	28	10
Gwybodaeth a chysylltu	9	5
Astudio neu gasglu data	8	5
Ffiniau	5	5
Isadeiledd ymwelwyr	4	3
Isadeiledd rheoli dŵr	4	3
Adfer neu reoli coedwigoedd	4	2
Rheoli rhywogaethau goresgynnol	3	2
Peiriannau a/neu offer	3	2
Adfer adeiladau	2	1
Isadeiledd da byw	2	2
Bioddiogelwch Natura 2000	1	1
Hyfforddiant a chysylltu	1	1
Arall	3	3

Mae'r gweithredoedd wedi eu rhestru yn Atodiad Technegol-2, yn ôl math, prosiect, cryfder y dystiolaeth y ceir effaith ar nodweddion y safleoedd Natura 2000 perthnasol a'r cyfraniadau posibl i amcanion ehangach. Mae'r adroddiadau ar y 17 prosiect i'w gweld yn llawn yn Atodiad Technegol-5 (dogfen dechnegol mewn atodiad ar wahân⁸)

3.2 Tystiolaeth o'r effaith bosibl ar nodweddion a safleoedd Natura 2000

Mae'r adran hon yn crynhoi'n fras ganfyddiadau'r adroddiadau gwerthuso arbenigol manwl ar gyfer yr 17 prosiect a astudiwyd yn fanwl.

3.2.1 Targeddu prosiectau at flaenoriaethau Natura 2000

Roedd pob un o'r 17 prosiect o fewn ACA neu AGA, neu'n agos at ardaloedd o'r fath, ond nid oedd union leoliad a graddau gweithredoedd unigol a'u perthynas â nodweddion Natura 2000 penodol bob amser yn glir yn y ffurflen gais, yn enwedig ar safleoedd mawr neu gymhleth.

O'r 77 gweithred, roedd 59 yn gysylltiedig ag un neu fwy o gynefinoedd neu rywogaethau Natura 2000, gan amlaf o fewn statws cadwraeth anffafriol neu anhysbys.

Nid oedd modd cysylltu'r 18 gweithred sy'n weddill â chynefin neu rywogaeth Natura 2000. Roedd y gweithredoedd hyn yn ymwneud â gwybodaeth a rheoli ymwelwyr, neu mewn rhai achosion reoli cynefinoedd. Barnwyd bod pob un ag effeithiau manteisiol posibl ar o leiaf un o'r pum elfen a aseswyd – mwy o ffoamrywiaeth o fewn ardal prosiect, effeithiau ar raddfa dirweddol, yr economi leol, cysylltu â'r gymuned neu gynyddu gwybodaeth.

3.2.2 Cryfder y dystiolaeth o'r effaith bosibl yn sgil gweithredoedd a phrosiectau ar nodweddion a safleoedd Natura 2000

Roedd cryfder y dystiolaeth o effaith bositif ar nodweddion Natura 2000 yn rhan sylweddol o'r dadansoddiad o bob gweithred. Defnyddiwyd tri chategori 'goleuadau traffig' i ddynodi pa mor dda yr oedd pob gweithred yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth wyddonol o'r effaith bositif bosibl ar y nodwedd Natura 2000 a dargedir. Mae'r 'goleuadau traffig' yn debyg i'r rheiny a ddefnyddir ar gyfer yr Adolygiad o Dystiolaeth CFFC ERAMMP (ERAMMP Adroddiadau-1 i -10)⁹ ac fe'u diffinnir fel a ganlyn, yn ôl eu trefn:

- Mae'r weithred wedi ei phrofi'n drwyadl ar sawl safle gyda chanlyniadau cyson a chadwyn logisteg sefydledig (glas)
- Ceir cytundeb o fewn y gymuned o arbenigwyr bod cadwyn logisteg i ymyrryd, ond mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig ac mae angen ystyried yr agweddau llai positif (melyn)
- Nid yw'r gadwyn logisteg yn cael ei chefnogi neu mae'r weithred yn anymarferol, neu mae agweddau negyddol sylweddol neu effaith bosibl annigonol (coch tywyll)

O'r 77 gweithred, roedd 33 yn bodloni'r categori tystiolaeth uchaf (glas), roedd 22 yn bodloni'r ail gategori (melyn) a dim ond 3 oedd yn bodloni'r trydydd categori (coch tywyll). Caiff yr asesiadau hyn oll eu crynhoi ar gyfer pob gweithred (Atodiad Technegol-2) ac ar gyfer pob prosiect yng nghyd-destun y nodwedd Natura 2000 a dargedir (Atodiad Technegol-3). Mae'r

⁸ www.erammp.wales/59 '59TA2'

⁹ www.erammp.wales/r-sfs-evidence-pack

adroddiadau gwerthuso arbenigol manwl ar gyfer pob un o'r 17 prosiect i'w gweld yn Atodiad Technegol-5 (dogfen dechnegol mewn atodiad ar wahân).

Wrth ystyried rhai o'r gweithredoedd yn yr ail a'r trydydd categori, mae'n bwysig nodi nad y broblem oedd diffyg tystiolaeth wyddonol o reidrwydd, ond yn hytrach ddiffyg data digonol yng nghais y prosiect ynghylch a fyddai'r weithred yn cael ei chymhwyso i nodweddion penodol Natura 2000, sut y câi'r weithred ei chymhwyso neu ble y câi ei cymhwyso.

Nodir hefyd yn adroddiadau'r prosiectau a oedd y gweithredoedd a gefnogwyd yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar waith rheoli cadwraethol Natura 2000, gan gymryd bod buddsoddiad yn cael ei wneud unwaith yn rhagor mewn blynyddoedd dilynol drwy reoli beunyddiol priodol (defnyddio offer, darpariaeth bori, wardeniaid ac ati).

Ar gyfer rhai gweithredoedd wedi'u hariannu, nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r effaith uniongyrchol ar safleoedd Natura 2000, ond roedd y gweithredoedd hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau positif yn y dyfodol. Roedd y gweithredoedd hyn yn cynnwys astudiaethau cwmpasu, arolygon o rywogaethau neu gynefinoedd, paratoi cynlluniau ac ati, ac ystyriwyd y rhain yn aml i fod yn ddoeth neu'n angenrheidiol i sicrhau trefniadau rheoli priodol yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw effeithiau ar statws safle Natura 2000 ond yn digwydd os oes buddsoddiad pellach a rheoli priodol yn dilyn y gweithredoedd a gefnogir gan y grant hwn.

3.2.3 Asesu manteision ychwanegol posibl

Roedd asesu'r manteision ychwanegol yn seiliedig ar farn arbenigol yr adolygwyr, gan ddefnyddio'r wybodaeth yng nghais y prosiect, yr Adolygiad o Dystiolaeth CFfC ERAMMP a phrofiadau yn sgil gweithredoedd tebyg (er enghraifft, Glastir) yng Nghymru.

3.2.3.1 Manteision ychwanegol i fioamrywiaeth yn y safle lle ceir y gweithredoedd

Y diffiniad yma yw'r manteision sy'n debygol o godi i nodweddion rhywogaethau, cynefinoedd neu fioamrywiaeth yn y safle lle ceir y gweithredoedd, ond nad ydynt wedi eu rhestru ym matrices y Cynllun Gwelliannau a Flaenoriaethir ar gyfer safleoedd Natura 2000 perthnasol.

Ni chafodd y fantais ychwanegol hon ei nodi yn y briff ar gyfer y gwerthusiad hwn, ond yn ystod yr astudiaeth daeth yn amlwg y gallai nifer o ymyriadau arwain at fanteision i fioamrywiaeth ar lefel arall ar y safle Natura 2000, er nad yw'r cynefinoedd neu'r rhywogaethau hyn wedi eu rhestru fel nodweddion i'r safle o bosibl. O'r 17 prosiect, aseswyd bod gan 12 ohonynt fanteision o'r fath ar gyfer un neu ragor o'u gweithredoedd.

3.2.3.2 Manteision ar raddfa dirweddol

Mae hyn yn cynnwys y manteision posibl i wasanaethau bioamrywiaeth neu ecosystem sy'n digwydd ar raddfa fwy nag ardal y cais. Mae'n cynnwys gwelliannau i'r amrywiaeth, graddfa, cysylltedd, cyflwr, a'r gallu i addasu ymhlith ecosystemau (AGCCGA; fframwaith cydnerthedd ecosystemau). Er enghraifft, mwy o gysylltedd ar raddfa dirweddol i gynefinoedd o fewn a'r tu allan i safleoedd Natura 2000; gwell ansawdd dŵr o fewn dalgyllch. Roedd gan bob prosiect namyn un fanteision posibl ar raddfa dirweddol ar gyfer un neu ragor o'u gweithredoedd.

3.2.3.3 Manteision i'r economi leol

Mae hyn yn golygu manteision economaidd i unigolion, busnesau, rheolwyr tir a chontractwyr o fewn ardal y cais, neu'n agos at yr ardal honno. Roedd manteision o'r fath yn amlwg yn 13 o'r prosiectau, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio chontractwyr lleol i adfer cynefinoedd, adfer ffiniau ac ati.

3.2.3.4 Cysylltu â'r gymuned

Mae hyn yn cynnwys mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd, gwell ymwybyddiaeth a mwynhad o nodweddion amgylcheddol, hanesyddol a diwylliannol yn ardal y cais. Mae'n cynnwys

gweithredoedd sy'n debygol o gyfrannu at nodau llesiant gan gynnwys hybu iechyd a chydaddoldeb mynediad. Roedd manteision o'r fath i'w gweld mewn 13 prosiect, yn aml yn gysylltiedig â defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer sawl math o weithred, ymdrechion addysgiadol ac allgymorth, a chysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr tir eraill. Fodd bynnag, mewn ambell achos roedd yr asesiad o'r prosiect yn nodi y gallai prynu peiriannau arbenigol i reoli cynefinoedd leihau'r angen am waith llafur corfforol gan gcontractwyr a gwirfoddolwyr.

3.2.3.5 Cynyddu gwybodaeth

Mae'r categori hwn yn cynnwys buddsoddi mewn arbenigedd, hyfforddiant a gwybodaeth am wasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ymwneud â safle Natura 2000 a dargedir neu'r dirwedd ehangach. Roedd manteision o'r fath i'w gweld mewn ychydig yn llai na hanner y prosiectau, yn bennaf y rheiny a oedd yn cynnwys gweithredoedd astudio a chasglu data.

3.2.4 Mesurau y gallai rheolwyr cynllun eu defnyddio i fonitro effeithiau

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr nodi mesurau syml y gellid eu defnyddio i fonitro effaith eu gweithredoedd. Ni wnaeth pob ymgeisydd lwyddo i roi ateb clir, ac mewn sawl achos roedd yr awgrymiadau am ffyrdd o fesur yn cynnwys monitro canlyniadau yn hytrach nag effaith y gweithredoedd ar fioamrywiaeth ac amcanion Natura 2000.

Lle bo'n briodol, nododd yr adolygwyr os oedd mesur syml yn bodoli, os nad oedd yr ymgeisydd wedi crybwyll hyn. Fodd bynnag, byddai'r mesurau hyn fel arfer yn cynnwys asesiadau o safleoedd dros nifer o flynyddoedd, wrth i welliannau cynefinoedd ddwyn ffrwyth, a byddai gofyn am gyllid y tu hwnt i gwmpas un dyfarniad grant.

3.2.5 Y posibilrwydd o ddefnyddio modelau â ffynhonnell agored i helpu i werthuso prosiectau

Yn ogystal â gwerthuso gweithredoedd prosiectau, roedd briff LIC yn ei gwneud yn ofynnol i nodi prosiectau lle byddai dadansoddiad rhagfynegol yn helpu i werthuso. Mae'r dadansoddiad hwn, gan ddefnyddio gwybodaeth arbenigol, wedi ei gyfyngu i'r 17 prosiect a werthuswyd yn fanwl ac i'r modelau a ddefnyddiwyd eisoes ym Mhlatfform Modelu Integredig (PMI) ERAMMP neu fodelau eraill sydd â ffynhonnell agored ac sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio. Tynnir sylw hefyd at achlysuron lle bo modelau perthnasol wedi cael eu cyhoeddi, ond eu bod yn gymwys i nodwedd y tu allan i Gymru gan ddangos bod datblygu model ar gyfer y nodwedd a dargedir yng Nghymru yn debygol o fod yn bosibl, ond y byddai'n esgor ar gost bellach.

Mae'r dadansoddiad manwl o'r opsiynau modelu ar gyfer y 17 prosiect a'r data y byddai eu hangen i gynnal pob model wedi eu crynhoi yn Atodiad Technegol-4. Dyma ddata a arsylwir yn ôl yr arfer i nodweddu'r gwaelodlin o ran cyflwr cyn ymyrryd. Er mwyn gwerthuso effeithiau posibl ar ôl ymyrryd, gofynnir am senario wedyn sy'n nodi lleoliad a maint y newid yn yr amrywiolion mewnbyn sy'n gyson â'r gyfres o weithredoedd a ariennir.

Mae'n bwysig nodi y ceir mwy o realaeth a hygredded pan fo'r waelodlin a'r senario yn seiliedig ar ddata a arsylwir ar gyfer pob lleoliad yr effeithir arno, yn hytrach nag ar ddata cyffredinol o rywle arall, neu lle bo mewnbyn ar raddfeydd garw gan gyffredinolir amrywiaeth amgylcheddol. Un mater arall i'w gofio yw bod y modelau bioamrywiaeth fel arfer yn modelu'r berthynas ofod rhwng canlyniadau rhywogaethau a rhagamcanion amgylcheddol. Yng nghydestun y rhagamcanion, mae gofod yn cymryd lle amser, ac felly ni chaiff deinameg y boblogaeth ei fodelu'n benodol. Mae'r allbynnau felly yn tueddu i gael eu dehongli fel newid

mewn addasrwydd cynefinoedd yn hytrach na rhagamcanion penodol ynglŷn â nythfeydd, diflannu rhywogaethau a thwf mewn poblogaeth (Damgaard 2019¹⁰).

Roedd PMI ategol a modelau ffynhonnell agored sydd ar gael ar gyfer gweithredoedd o'r 17 prosiect yn dangos newidiadau modelu i rywogaethau planhigion a llystyfiant yn aml yn berthnasol (Tabl 3.2 ac Atodiad Technegol-4).

Gan fod yr ymyriadau fel arfer yn cynnwys rheoli llystyfiant, hwyrach nad yw hyn yn syndod. Roedd ecosystemau dyfrol a dŵr hefyd yn feysydd amlwg i ymyrryd ynddynt. Yn yr achosion hyn, mae'n ymddangos bod argaeledd modelau yn fwy cyfyngedig. O ran y rhywogaethau adar sy'n debygol o gael eu heffeithio, nid ydynt fel arfer o fewn y rhestr o ddsbarthiadau daearol a dargedir gan y model YAP-PMI-Adar¹¹ ac nid yw planhigion dyfrol yn cael eu cynnwys i raddau helaeth gan y model penodol o rywogaeth planhigion model MultiMOVE¹².

Tabl 1.2 Rhestr o fodelau a chymhwysedd i weithredoedd prosiectau

Model	Prif fudd cyhoeddus	Wedi ei gynnwys yn PMI ERAMMP	Nifer y prosiectau cymwys [o'r 17 a aseswyd]
MultiMOVE	Bioamrywiaeth (planhigion)	Do	11
YAP-PMI-Adar	Bioamrywiaeth (adar)	Do	3
FARMSCOPER ¹³	Llygredd gwasgaredig (maeth dros ben)	Do	3
MFfGS ¹⁴	Cynhyrchu bwyd (proffidioldeb fferm)	Do	2
Madfall Ddŵr Gribog (CNC/CAY)	Bioamrywiaeth	Naddo	1
SRhDYA ¹⁵ (UKECH)	Ansawdd dŵr	Naddo	3
Ystlum Pedol Lleiaf (Ymchwil Fforestydd)	Bioamrywiaeth (Ystlum Pedol Lleiaf)	Naddo	1

Mewn nifer o achosion, roedd y rhywogaeth a dargedir wedi bod yn destun gwaith modelu yn y gorffennol neu â model ffynhonnell agored ar gael. Mae hyn yn wir yn achos y Fadfall Ddŵr Gribog a'r Ystlum Pedol Lleiaf.

Yn ogystal, mae'r offeryn SRhDYA yn fodd o archwilio effeithiau posibl ar statws troffig ac amrywiaeth micro-ymlusgiaid mewn ecosystemau dŵr croyw. Mae Adar y Dŵr a glöyn byw Britheg y Gors hefyd wedi cael eu modelu'n llwyddiannus yn y gorffennol, ond nid ydynt wedi eu targedu yng Nghymru yn benodol. Mae hyn yn dangos y byddai datblygu modelau yn bosibl gyda'r data hyfforddiant priodol. Byddai hyn yn esgor ar gost yn sgil datblygu model newydd.

¹⁰ Damgaard, C (2019) A critique of the space-for-time substitution practice in community ecology. Trends in Ecology & Evolution 34, 416-421.

¹¹ Cydran modelu ar gyfer adar y PMI, creu gan YAP.

¹² https://shiny-apps.ceh.ac.uk/find_your_niche/

¹³ <https://adas.co.uk/services/farmscoper/>

¹⁴ <https://www.cranfield.ac.uk/centres/centre-for-environmental-and-agricultural-informatics/life-cycle-assesment-group>

¹⁵ <https://www.ceh.ac.uk/services/rivpacs-reference-database>

Ym mhob achos, mae hygredded a defnyddioldeb cymhwyso modelau i archwilio effeithiau disgwylidig yn dibynnu ar ansawdd y data a ddefnyddir i ddiffinio'r gwaelodlin a addesir wedyn mewn senario cytunedig lle ceir newid i adlewyrchu goblygiadau'r gweithredoedd rheoli. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r mewnbynnau hyn yn debygol o fod ar gael ar ffurf map o ansawdd uchel, er enghraifft lle bo math o gynefin a nodweddion tirwedd yn cael eu mewnbynnu i'r model YAP/PMI-Adar, neu lle byddai map yn dangos data angenrheidiol eraill gan randdeiliaid, er enghraifft lle bo angen cyfraddau defnyddio gwrteithwyr a rheoli'r gwaelodlin eu hangen ar gyfer model FARMSCOPER.

Ar y cyfan, lle bo gofynion data yn fwy beichus, opsiwn wrth gefn yw defnyddio data mwy bras, er enghraifft math o ecosystem, cynefin neu fferm ar lefel ranbarthol. Bydd hyn yn arwain at ddata llai manwl gywir (ac mae'n llai tebygol o adlewyrchu'r hyn sydd ar y safle) a llai o sicrwydd yn yr allbynnau. Mae hyn yn dilyn gan fod y data a fewnbynnir yn methu â chynrychioli'n ddigonol yr amrywiaeth sydd i'w gweld ar y safle.

Ar ryw bwynt, mae hyn yn debygol o olygu bod rhagfynegiadau yn dod yn llai defnyddiol a gallai hyn yn y pen draw beri risg i hygredded y dull modelu. Y broblem yw bod casglu data wedi'i mewnbynnu sydd o ansawdd uchel yn esgor ar gost, boed hynny drwy arolwg maes o'r lleiafswm o ran nifer digonol o samplau pridd a llystyfiant yn y model MultiMOVE neu drwy gysylltu â rhanddeiliaid i adeiladu set ddata wedi'i mewnbynnu ar gyfer model MFfGS neu FARMSCOPER.

Mewn sawl achos, nodir effeithiau goblygiadol positif a negatif, er enghraifft mwy o bori y tu allan i ardal gweithredoedd y prosiect os lleiheir lefelau pori mewn ardaloedd a dargedir, ac effeithiau positif posibl ar yr economi ehangach drwy gynyddu'r galw am wasanaethau rheoli tir. Mae'n ddigon teg ystyried bod y prosiectau a'r mentrau sy'n gwneud y gwaith yn gysylltiedig â'r economi leol a'r dirwedd leol.

Er mwyn archwilio'r effaith ehangach yma, byddai gofyn am setiau data mwy beichus a mwy o gysylltu â rhanddeiliaid, ond mae hyn yn orchwyl ar raddfa lle gellir defnyddio plattform PMI. Mae'r cwestiynau a fyddai'n berthnasol ar y raddfa hon yn fwy tebygol o ymwneud ag asesu a deall gwerth ar effeithiau ar draws ystod mwy o wasanaethau ecosystem a hynny ar raddfa fwy o ran gofod, ac effaith y cyllid ar gynaliadwyedd a chydnerthedd yr economi a'r ecoleg leol. Diau y byddai hefyd yn brawf cadarn ar allu modelau PMI i weithio *gyda'i gilydd* ar lefel weddol fân gan esgor ar ragamcanion dichonadwy, defnyddiol.

3.3 Trafodaeth

Mae ystod y prosiectau, yr amcanion a'r gweithredoedd yn y 17 cais a adolygir yn fanwl yma yn werth ei ganmol, o ran amrywiaeth yr amcanion, y cwmpas ac mewn rhai achosion yr arloesedd a'r uchelgais. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y dyfarniadau grant yn gynllun gweddol newydd, a lansiwyd ar adeg pan oedd gofyn i'r rhan fwyaf o reolwyr safleoedd gydymffurfio ag ystod o gyfyngiadau yn sgil pandemig Covid-19.

Roedd nifer o geisiadau yn dangos elfennau a gysylltir â gwerthuso effeithiol, ac mewn rhai achosion cafwyd cysylltiadau cryf â thystiolaeth wyddonol o fanteision posibl i fioamrywiaeth. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Achos clir dros ymyrryd, gan gyfeirio at y cyflwr a'r bygythiadau presennol, ac yn enwedig at y CGF ar gyfer y safle Natura 2000 perthnasol.
- Cyfiawnhau'r angen am fuddsoddiad penodol, gyda manylion clir am leoliad, graddfa a math y gweithredoedd a gyflawnid, a sut y gallai'r rhain gyd-fynd â'r cynlluniau presennol a hirdymor ar gyfer y safle.

- Portread clir i bob gweithred a'r canlyniadau a ddisgwylir yn ei sgil, ar gyfer nodweddion Natura 2000 a manteision posibl eraill (mwy o fioamrywiaeth, ar raddfa dirweddol, economi leol, cysylltu â'r gymuned a chynyddu gwybodaeth).
- Egluro sut y sicrhod y canlyniadau disgwyliedig yn sgil y buddsoddiad y tu hwnt i'r cyfnod gweithredu o 6 mis.

Nid oedd pob prosiect yn cyfeirio'n benodol at nodweddion allweddol a blaenoriaethau N2K. Fodd bynnag, roedd y rheiny na wnaeth hynny yn cynnwys manteision posibl ar gyfer mwy o fioamrywiaeth, ar raddfa dirweddol, i'r economi leol, o ran cysylltu â'r gymuned neu o ran cynyddu gwybodaeth – a hynny'n aml gyda thystiolaeth ategol gref. Mae'n werth canmol hefyd y modd y cynhwyswyd gweithredoedd a oedd yn ymdrin â rheoli ymwelwyr a gwybodaeth, o ystyried arwyddocâd nifer o'r safleoedd fel cyrchfannau i dwristiaid a'u gwerth i gymunedau lleol fel manau i fwynhau'r amgylchfyd naturiol.

Cafodd y tîm gwerthuso drafferthion wrth asesu rhai o'r prosiectau, a hynny am sawl rheswm. Gan fod y grant wedi ei ddylunio i fod yn grant untro, o fewn un flwyddyn, nid oedd wastad yn glir sut yr oedd y buddsoddiad drwy'r grant yn cyd-fynd ag amcan trosfwaol yr ymgeisydd i reoli'r safle Natura 2000.

Yn aml, nid oedd yn bosibl asesu'r raddfa o ran y gofod i ymyrryd ynddo, a hynny'n rhannol gan fod nifer o ymgeiswyr wedi methu â nodi hyn. Yn benodol, nid aed i fanylion wrth ddisgrifio'r trefniadau rheoli presennol mewn sawl safle, ac felly nid oedd y ddatl o blaid newid y trefniadau rheoli bob amser yn glir. Yn yr un modd, nid oedd disgrifiad llawn o statws presennol cynefinoedd neu rywogaethau a dargedir bob amser. Mae'n bosibl/tebygol fod cyflwr rhai o'r nodweddion Natura 2000 wedi newid ers yr asesiad cyflwr diweddaraf gan CNC/CCGC, ac fel rheolwyr y safleoedd hwyrach bod yr ymgeiswyr (a'u cynghorwyr CNC lleol) yn gwybod hyn, hyd yn oed os nad oes cofnod ffurfiol o'r fath.

I gael yr effaith lawn yn sgil buddsoddi mewn bioamrywiaeth ac i sicrhau hirhoedledd gwelliannau yng nghyflwr cynefinoedd a rhywogaeth, yn aml mae angen ailgyflwyno trefniadau rheoli priodol ar ôl y gwaith a hwyluswyd gan y grant. Ni wnaeth pob ymgeisydd egluro a oedd adnoddau ar gael i barhau â gwaith rheoli a monitro safleoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae nifer o'r ymgeiswyr yn rheolwyr safle profiadol a dywedodd rhai ohonynt yn glir fod angen rheoli parhaus ac y bwriedir gwneud hynny.

Roedd math a dyfnder y gweithredoedd cysylltu â'r gymuned yn amrywio, o drafodaethau â rhanddeiliaid i ddarparu adnoddau addysgiadol a chynnwys gwirfoddolwyr a ffermwyr yn rhagweithiol wrth weithredu'r prosiect a/neu gasglu data.

Nid oedd y ceisiadau i ddefnyddio cyfalaf i brynu peiriannau ac offer bob amser yn cael eu hegluro yng nghyd-destun manteision amgylcheddol ac ecolegol penodol a oedd yn debygol, os o gwbl. Mewn rhai achosion, byddai prynu peiriannau yn golygu y gellir rheoli cynefinoedd yn rheolaidd ac yn brydlon (er enghraifft, gwlypdiroedd lle na ellid defnyddio tractor, neu fel opsiwn arall yn hytrach na defnyddio contractwyr). Mewn achosion eraill, roedd yr hyn y byddai buddsoddiad yn ei ychwanegu yn aneglur, er enghraifft lle defnyddir y grant i brynu peiriannau ac offer newydd i gymryd lle hen rai sydd yno ar hyn o bryd, neu ffensys mewn cyflwr gwael.

4 ARGYMHELLION

Gwahaniaethu'n gliriach rhwng canlyniadau manteisiol i nodweddion Natura 2000 a'r manteision amgylcheddol ehangach

Mae gwella cyflwr neu statws cynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 allweddol (o fewn safleoedd Natura 2000 dynodedig, neu y tu hwnt i safleoedd o'r fath) ac esgor ar fanteision ehangach, cynaliadwy, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol ill dau yn ganlyniadau hollbwysig, ond efallai y bydd arnynt angen gwahanol fathau o fuddsoddiad a gweithredoedd. Gellid gwneud y gwahaniaeth hwn yn glir drwy:

- Wahaniaethu rhwng y ddau fath o ganlyniad, yn y broses arweiniol a'r broses ymgeisio, gan ganiatáu i ymgeiswyr ddatblygu a chyfathrebu'n glir pa brosiectau sy'n esgor ar fanteision i nodweddion Natura 2000 a flaenoriaethir yn ogystal â manteision amgylcheddol ehangach.
- Cyfathrebu'n glir i bob darpar ymgeisydd posibl a'u cynghorwyr pa mor bwysig yw gweithredoedd mewn perthynas â nodweddion Natura 2000 a flaenoriaethir yng nghydestun cyflwr a bygythiad presennol i gynefinoedd a rhywogaethau, a sicrhau bod gwybodaeth am gyflwr ac anghenion nodweddion Natura 2000 a flaenoriaethir yn hygyrch drwy gydol y broses ymgeisio. Caiff llawer o'r wybodaeth hon ei chrynhoi yn y CGF (matrices) a chronfa ddata Lle, ond gellid ychwanegu at hyn drwy fapiau o safleoedd Natura 2000 er mwyn i ymgeiswyr allu eu lawrlwytho a'u defnyddio i ddangos lleoliad a graddfa'r buddsoddiad arfaethedig.

O sicrhau bod y wybodaeth yn hygyrch i ymgeiswyr a'u cynghorwyr drwy gydol y broses ymgeisio, gallai hyn helpu wrth ddylunio ymyriadau effeithiol.

A. Cydnabod yr angen am dystiolaeth o waelodlin cyflwr

Mae dystiolaeth o waelodlin y cyflwr cyn dechrau ar weithredoedd yn hanfodol i roi nod fel y gellir gwirio llwyddiant y gweithredoedd ar y safle ac, yn bwysig, i werthuso newidiadau dilynol yng nghyflwr neu statws nodweddion a dargedir. Er enghraifft:

- Cymell ymgeiswyr i roi dystiolaeth o waelodlin cyflwr yr hyn a dargedir gyda'r ymyriad, gan gynnwys data monitro biolegol presennol, a thystiolaeth ffotograffig â geotag a dyddiad lle bo'n briodol.
- Lle bo'n briodol, gwneud darpariaeth i dderbyn dystiolaeth sy'n ategu neu'n dadlau yn erbyn blaenoriaethau LIC/CNC mewn perthynas â safleoedd a nodweddion Natura 2000, er enghraifft lle bo ymgeiswyr â mynediad at fwy o wybodaeth neu wybodaeth sy'n fwy cyfredol na'r hyn sydd ar gael i LIC/CNC.
- Gyda sylfaen dystiolaeth ddigon clir, gellid hefyd ystyried ceisiadau gyda'r bwriad o wella cyflwr ecolegol a chydnerthedd tirweddau o amgylch safleoedd Natura 2000.

B. Sicrhau y galluogir ac yr anogir rheolwyr safleoedd i fabwysiadu trefniadau cynllunio hirdymor

Mae'n anorffod y bydd y gwaith o wella cyflwr safleoedd Natura 2000, ynghyd â chynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru yn cymryd peth amser, a hynny oherwydd cyflymder annatod y newid biolegol ac am resymau sy'n gysylltiedig â chapasiti cyllidol a thechnegol (o safbwynt y llywodraeth a rheolwyr tir) ac, mewn rhai achosion, argaeledd staff medrus. Mae hyn yn amlygu'r angen am gynllunio hirdymor gan reolwyr safleoedd a chyrrff cyllido fel ei gilydd er mwyn rhaglennu'r buddsoddiad angenrheidiol a sicrhau bod safleoedd Natura 2000, ynghyd â chynefinoedd a rhywogaethau yn cael eu cynnal dros y tymor hir a'u rheoli o safbwynt cadwraeth. Gellid gwneud hyn drwy:

- Wahodd ceisiadau gan reolwyr tir unigol neu grwpiau o ddeiliaid tir cyffiniol o fewn neu'n agos at safle Natura 2000 ar gyfer rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd a threfniadau rheoli dilynol, wedi'u hategu gan gynlluniau wedi'u llunio gan gynghorwr cymwysedig wedi ei gymeradwyo gan CNC (cymharer hyn â grantiau fforestydd Llywodraeth y DU sy'n seiliedig ar gynllun rheoli fforestydd);
- Cefnogi astudiaethau fel sylfaen cyn paratoi buddsoddiad Natura 2000 a chynllun rheoli;
- Cynnig cyllid ymlaen llaw i baratoi cynlluniau manwl sy'n benodol i safleoedd gan dargedu safleoedd a nodweddion Natura 2000, a hynny ar lefel unigolion neu grwpiau deiliadaeth, cyn i'r cais am grant gael ei wneud am raglen fuddsoddi 5 mlynedd;
- Gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu data gwaelodlin cyn dechrau gweithredoedd a gofyn i ddata gael eu casglu gan y rheolwr tir ynghylch cyflwr y cynefinoedd/rhywogaethau a dargedir yn ystod y rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd (ac ystyried taliad bonws yn seiliedig ar ganlyniadau ar ôl 5 a 10 mlynedd);
- Gofyn am ymrwymiad (yn gysylltiedig â'r grant buddsoddi) i drefniadau rheoli tir parhaus sydd eu hangen i sicrhau statws cadwraeth gwell (lle bo'n briodol, gallai hyn gael ei ariannu gan gontractau rheoli dros sawl blwyddyn, yn debyg i daliadau amaethyddol-amgylcheddol lefel uwch); a
- Chadw cyfran o'r gyllideb i un ochr i ariannu rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd yn seiliedig ar gynlluniau o'r fath.

C. Sicrhau bod y grantiau Natura 2000 yn arwain at fuddion amgylcheddol ac ariannol

Tynnu gwahaniaeth cliriach rhwng buddsoddiad newydd sydd ei angen ar gyfer adfer cynefin/rhywogaeth (er enghraifft, lle bo trefniadau rheoli tir wedi eu hesgeuluso a lle bo angen isadeiledd pori/da byw newydd) a buddsoddiad rheolaidd yn y gwaith o gynnal a chadw/adnewyddu isadeiledd ac offer presennol (er enghraifft, ffensys a cherbydau sydd angen eu hadnewyddu ar ôl rhai blynyddoedd).

D. Ystyried addasiadau i'r prosesau ymgeisio a ffurflenni cais

Gellid teilwra'r broses ymgeisio a dethol i sicrhau bod ceisiadau yn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar flaenoriaethau Natura 2000, heb gyfyngu ar y cyfleoedd am ddulliau arloesol o fuddsoddi mewn safleoedd Natura 2000 i sicrhau a chadw statws cadwraeth ffafriol. Er enghraifft:

- Caniatáu ffenestr hirach, a gweithredu dros flwyddyn gyfan (nid dros y gaeaf yn unig), yn amodol ar fesurau diogelu angenrheidiol i osgoi tarfu ar y tymhorau bridio/blodeuo.
- Gofyn i bob cais nodi'n glir ac yn ddiamwys pa weithredoedd fydd yn digwydd ym mha safle, a'r manteision disgwylidig i Natura 2000 a'r manteision eraill ym mhob achos.
- Gofyn am fanylion dulliau/mesurau i'w defnyddio i gofnodi gwaelodlin cyflwr cynefinoedd a/neu rywogaethau cyn gweithredu a gwerthuso'r effaith ar gyflwr safle dros gyfnodau penodol o amser ar ôl gorffen y gweithredoedd (ochr yn ochr â thystiolaeth ffotograffig â geotag a dyddiad).
- Gofyn i brosiectau mawr sy'n cynnwys grwpiau gwahanol o weithredoedd mewn gwahanol leoliadau i gael eu nodi'n glir mewn is-brosiectau ar wahân, gan roi mwy o ofod ar y ffurflen am fanylion prosiectau.
- Sicrhau bod y rhan o'r ffurflen gais sy'n ymwneud â buddsoddiad penodol i safleoedd Natura 2000 a'r rhan o'r ffurflen sy'n ymwneud â manylion gweinyddol yr ymgeisydd wedi'u gosod ar wahân, ac ystyried gwahanu'r tudalennau a ganiateir ar gyfer y rhan weinyddol a'r disgrifiad a'r cyfiawnhad dros weithredoedd a gynigir. (Byddai hyn yn golygu bod ceisiadau yn symlach os yw un sefydliad am wneud sawl prosiect, gan mai dim ond un adran weinyddol fyddai ei hangen).
- Gofyn i'r asesiad risg drafod y risg pe na wneid gweithredoedd ar wahân, ynghyd â'r risgiau amgylcheddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig.
- O ystyried bod sawl safle Natura 2000 a borir ar ucheldiroedd (a rhai safleoedd ar iseldiroedd) yn dir comin, cynnig cymorth wrth hwyluso/cynghori er mwyn annog grwpiau o ffermwyr neu gymdeithasau pori i wneud cais.
- Ystyried sut y gellir addasu'r pwys a roddir ar wahanol elfennau o'r cais (a chyfraddau grantiau o bosibl) i ffafrio ceisiadau sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau Natura 2000 yn glir, ond hefyd annog agweddau eraill a allai daflu goleuni positif ar safleoedd Natura 2000 ym marn y boblogaeth leol (er enghraifft, caffael gwaith llafur/deunyddiau yn lleol; cynnwys pobl leol o bob oed fel gwirfoddolwyr (er enghraifft drwy waith rheoli, casglu data, gwyddoniaeth dinasyddion)).
- Ailddylunio'r tabl yn adran 4.1 o'r ffurflen gais i'w gwneud yn glir pa wybodaeth sydd ei hangen, a sicrhau bod chwarae teg i bob ymgeisydd drwy ei gwneud yn haws iddynt nodi a gwahaniaethu rhwng manteision i nodweddion Natura 2000 a manteision amgylcheddol ehangach. Er enghraifft, o dan y penawdau a ganlyn yn y tabl ar ei newydd wedd:
 - i. Gweithred ac union leoliad
 - ii. Graddfa'r gwaith (beth fydd y weithred yn ei gynnwys, a beth fydd y niferoedd y bydd eu hangen?)
 - iii. Manteision i nodweddion N2K (gan gyfeirio at gyflwr nodweddion N2K a flaenoriaethir ynghyd â'r problemau/risgiau)
 - iv. Manteision amgylcheddol mwy gwyllt (gan gynnwys lliniaru effeithiau newid hinsawdd, RhANG, cydnerthedd, manteision economaidd-gymdeithasol)

Swyddfa Rhaglen ERAMMP
UKCEH Bangor
Canolfan yr Amgylchedd Cymru
Ffordd Deiniol
Bangor, Gwynedd
LL57 2UW
+ 44 (0)1248 374500
erammp@ceh.ac.uk

www.erammp.cymru

www.erammp.wales